Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-26

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn gweithredu i diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn, a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@comisiynyddph.cymru
Gwefan: www.comisiynyddph.cymru
X: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, plîs cysylltwch â ni.

Mae'r holl wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi.

Cynnwys

Cyflwyniad	**04**
1. Ynghylch Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	**05**
2. Golwg gyffredinol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru	**07**
3. Cyd-destun	**08**
4. Sut y gwnaethom ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb	**10**
5. Amcanion Cydraddoldeb	**11**
Amcan Cydraddoldeb 1: Bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo diwylliant mewnol sy'n groesawgar ac yn gefnogol, gan sicrhau cyfle cyfartal i bob gweithiwr	11
Amcan Cydraddoldeb 2: Bydd y Comisiynydd yn cynyddu ymwybyddiaeth a chyrhaeddiad y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth	11
Amcan Cydraddoldeb 3: Bydd y Comisiynydd yn cryfhau ymgysylltu, cyfathrebu ac ymwneud â phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n sail i waith ehangach	12
Amcan Cydraddoldeb 4: Bydd y Comisiynydd yn parhau i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn llywio ac yn dylanwadu ar systemau a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â chynllunio ac ymarfer	12
6. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu	**13**
7. Cyhoeddi ac Adrodd	**13**
Atodiad 1: Data proffil y gweithlu	**14**
Cyfeirnodau	**16**

Cyflwyniad

Fel hyrwyddwr a llais annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, mae'r Comisiynydd yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywydau pobl hŷn.

Mae llawer o'r materion sy'n wynebu pobl hŷn yn seiliedig ar anghydraddoldeb a methiant i gydnabod a chynnal eu hawliau.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio i sicrhau bod gan bob person hŷn yng Nghymru lais, bod y cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n bywydau a'n cymdeithas yn cael ei gydnabod, a bod profiadau pobl o bob cefndir yn cael eu defnyddio i wella polisïau ac arferion.

Felly, mae deall yr holl amrywiaeth o brofiadau bywyd pobl hŷn yn hanfodol i sicrhau bod cymorth a gwasanaethau'n diwallu anghenion pobl, a bod adnoddau'n cael eu cyfeirio'n briodol.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Comisiynydd (y Cynllun) ar gyfer 2024 - 2026 yn nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd dros gyfnod o ddwy flynedd i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yng ngwaith mewnol ac allanol y Comisiynydd.

Mae'r Cynllun yn cwmpasu cyfnod o ddwy flynedd er mwyn pontio cyfnod Comisiynydd newydd ym mis Awst 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, drwy ymgysylltu â phobl hŷn yng Nghymru, bydd Cynllun pedair blynedd newydd yn cael ei ddatblygu sy'n cyd-fynd â gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad, yn ogystal â'r Cynllun Strategol newydd.

Bydd y Comisiynydd yn parhau i wneud popeth posibl i hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu hawliau pob person hŷn yng Nghymru, gan sicrhau ymgysylltiad â phobl hŷn a'u cynrychioli yn eu holl amrywiaeth.

1. Ynghylch Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl 60 oed a hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau.

Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm Cyngor a Chymorth ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn:

- Hybu ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

1.1 Ein Gwerthoedd

Mae ein hymddygiad a'n gwerthoedd yn arwain diwylliant ein sefydliad ac yn sail i'n hamcanion perfformiad personol. Mae ein gwerthoedd yn ffordd o ddal ein hunain yn atebol am y penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Un Tîm

- Rhoi nodau a rennir o flaen agendâu unigol
- Cynnig cymorth i bobl eraill mewn modd rhagweithiol

Parchus

- Mynd ati'n weithredol i ofyn am farn pobl eraill
- Gwerthfawrogi gwahanol syniadau a safbwyntiau

Cynhwysol a Chyfeillgar

- Talu sylw i'n llesiant ein gilydd
- Bod yn garedig, yn groesawgar ac yn gefnogol gyda phawb
- Ystyried yr hyn rydyn ni'n ei ddweud a'i wneud, ac effaith hynny ar bobl eraill

Agored

- Herio mewn modd adeiladol a bod yn barod am her
- Dysgu gan bobl eraill
- Chwilio am ffyrdd gwell o wneud pethau bob amser

Uchelgeisiol

- Bod yn frwd dros ein gweledigaeth
- Anelu at ragoriaeth
- Bod yn flaengar ac yn barod i gymryd risgiau rhesymol i gael effaith

Gonestrwydd

- Ymdrechu i wneud y pethau iawn a chymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith
- Gwneud yr hyn rydyn ni'n dweud ein bod ni am ei wneud

2. Golwg gyffredinol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi disodli'r deddfau blaenorol ar atal gwahaniaethu ac wedi'u cyfuno mewn un Ddeddf. Y nod oedd symleiddio'r gyfraith a'i chryfhau, gan ddileu anghysondebau a'i gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus, sy'n disodli'r dyletswyddau ar wahân ynglŷn â hil, anabledd a rhywedd a oedd yn bodoli o'r blaen.

Nod y ddyletswydd cydraddoldeb yw sicrhau bod yr awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant wneud cyfraniad cadarnhaol er mwyn sicrhau cymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau beunyddiol. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori wrth i bolisïau gael eu llunio ac wrth i wasanaethau gael eu cyflawni, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n gyson. Dylai hyn sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Dyma 3 nod y ddyletswydd cydraddoldeb:

1. Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd dan y Ddeddf Cydraddoldeb;

2. Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu;

3. Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn ymdrin â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn:

- Oedran
- Rhyw
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil (ond dim ond o ran y gofyniad bod rhaid rhoi sylw priodol i'r angen i ddileu gwahaniaethu mewn cyflogaeth)

3. Cyd-destun

Pobl Hŷn yng Nghymru: Ffeithiau a Ffigurau Allweddol

Amcangyfrifon o'r boblogaeth 60 oed a hŷn yng Nghymru yn 2021 a'r Amcanestyniadau ar gyfer 2030 a 2040

	2021	2030	2040
Amcangyfrif o'r boblogaeth 60 oed a hŷn	866,444	993,000	1,034,00
Pobl Hŷn (60 oed a hŷn fel % o gyfanswm y boblogaeth)	28%	30%	31%

Amcangyfrif o nifer y bobl hŷn yng Nghymru o wahanol ethnigrwydd 2021

Gwyn Prydeinig	830,845
Ethnigrwydd Gwyn Arall (Gwyddelig, Sipsi/Teithiwr, Pwyleg, Gwyn Arall)	15,150
Ddim yn Wyn (Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Asiaidd Arall, Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, Du Arall, Arabaidd, Pob Grŵp Ethnig Arall)	14,695

Cyfeiriadedd rhywiol pobl hŷn (60 oed a hŷn) yng Nghymru



Mae tua **572,000** o bobl hŷn (**66%**) yn ystyried bod ganddynt salwch hirsefydlog.

Mae tua **433,000** o bobl hŷn (**50%**) yn ystyried bod salwch hirsefydlog yn cyfyngu arnynt.

Mae tua **234,000** o bobl hŷn (**27%**) yn ystyried bod salwch hirsefydlog yn cyfyngu'n fawr arnynt.

Yn ôl y cyfrifiad diweddar, mae **116,788** o bobl dros 60 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i **13.6%.**

Mae **28%** o siaradwyr Cymraeg rhugl sydd dros 65 oed – sef tua **21,000** o bobl hŷn – yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad Cymraeg na Saesneg.

Mae canran y bobl hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg mewn gwahanol awdurdodau lleol yn amrywio o **1.4%** o bobl 65-74 oed ac **1%** o bobl dros 75 ym Mlaenau Gwent, i **53**% a **56.5%** yng Ngwynedd.

Statws perthynas oedolion 60 oed a hŷn yng Nghymru



Yn 2021, roedd 20795 o bobl 65 oed neu hŷn yn byw mewn cartref gofal (wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rhai a oedd mewn cartref heb ddarpariaeth nyrsio a'r rhai a oedd mewn cartref gofal nyrsio).

Mae hyn yn cynrychioli 2.4% o bobl dros 65 oed.







Am gyfeiriadau, gweler tudalen 16.

4. Sut y gwnaethom ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb

Cafodd Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd ar gyfer 2024- 2026 eu datblygu fel hyn:

- Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol a'r adroddiadau monitro cydraddoldeb blynyddol.
- Adolygiad o ddata'r Cyfrifiad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Adolygiad o gyhoeddiadau allweddol gan gynnwys Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2023 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach?' a chyhoeddiad y Comisiynydd ei hun 'Deall Poblogaeth Cymru sy'n Heneiddio: Ystadegau Allweddol'.
- Dysgu o'n gwaith ein hunain ac adroddiadau a gynhyrchir, yn ogystal ag ymgysylltu â phobl hŷn.
- Ymgynghori â staff y Comisiynydd.
- Ymgynghori ag Uwch Dîm Rheoli'r Comisiynydd.

5. Amcanion Cydraddoldeb

Amcan Cydraddoldeb 1: Bydd y Comisiynydd yn hyrwyddo diwylliant mewnol sy'n groesawgar ac yn gefnogol, gan sicrhau cyfle cyfartal i bob gweithiwr

Camau Gweithredu Blwyddyn 1:

- Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth.
- Darparu hyfforddiant pellach ar gydraddoldeb ar draws y sefydliad.
- Adolygu effeithiolrwydd modiwl cydraddoldeb y rhaglen gynefino a'i ddatblygu yn ôl yr angen.
- Datblygu a Chyhoeddi Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl

Camau Gweithredu Blwyddyn 2:

- Adolygu gwerthoedd y sefydliad.

Camau Gweithredu Blwyddyn 1 a 2:

- Cyflawni'r Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth.
- Monitro'r gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau yng ngweithlu'r Comisiynydd.
- Adolygu effeithiolrwydd y prosesau recriwtio sy'n berthnasol i'r gweithlu a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Amcan Cydraddoldeb 2: Bydd y Comisiynydd yn cynyddu ymwybyddiaeth a chyrhaeddiad y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth

Camau Gweithredu Blwyddyn 1:

- Casglu data cydraddoldeb gan ymholwyr i'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth.
- Dadansoddi proffil amrywiaeth pobl hŷn sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth.
- Gwella ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth Cymorth a Chyngor ymysg pobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig.
- Hyrwyddo'r gwasanaeth Cyngor a Chymorth i sefydliadau partner sy'n cefnogi pobl hŷn (statudol a'r trydydd sector) i gyrraedd amrywiaeth pobl hŷn.

Camau Gweithredu Blwyddyn 2:

- Cynnal a datblygu gwybodaeth fwy hygyrch, er enghraifft hawdd ei ddeall, gwahanol ieithoedd, fideos, sy'n egluro rôl a gwaith y Comisiynydd.

Camau Gweithredu Blwyddyn 1 a 2:

- Adolygu cyrhaeddiad y gwasanaeth Cyngor a Chymorth.

Amcan Cydraddoldeb 3: Bydd y Comisiynydd yn cryfhau ymgysylltu, cyfathrebu ac ymwneud â phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau bod eu lleisiau'n sail i waith ehangach

Camau Gweithredu Blwyddyn 1:

- Datblygu sianeli cyfathrebu gorau ar gyfer cyrraedd pobl hŷn.
- Ymgysylltu ag amrywiaeth y boblogaeth hŷn ledled Cymru.
- Sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn llywio blaenoriaethau'r Comisiynydd.

Camau Gweithredu Blwyddyn 2:

- Adolygu modelau ymgysylltu a chyfathrebu â phobl hŷn i benderfynu a oes modd gwneud rhagor o welliannau o ran ymgysylltu â phobl hŷn sydd â nodweddion gwarchodedig.

Amcan Cydraddoldeb 4: Bydd y Comisiynydd yn parhau i sicrhau bod profiadau pobl hŷn yn llywio ac yn dylanwadu ar systemau a gwasanaethau cyhoeddus yn ogystal â chynllunio ac ymarfer

Camau Gweithredu Blwyddyn 1 a 2:

- Adrodd ar a bwrw ymlaen ag argymhellion o feysydd gwaith gan gynnwys profiadau pobl hŷn o wasanaethau meddygon teulu; profiadau pobl hŷn Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; y cysylltiadau rhwng gwahaniaethu ar sail oedran a cham-drin.

6. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

Mae'r Comisiynydd yn glir bod cyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb yn gofyn am ddull gweithredu tîm cyfan. Bydd pob aelod o staff felly'n cyfrannu at gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb sydd yn y Cynllun hwn.

Er ein bod yn cydnabod yr atebolrwydd cyffredinol hwn o fewn y sefydliad, bydd y cynnydd yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd a'r camau gweithredu a nodwyd yn cael ei fonitro'n ffurfiol gan y Prif Swyddog Gweithredu a'r Arweinydd Hawliau a Chydraddoldeb. Bydd hyn yn digwydd yn barhaus.

Bydd diweddariad ddwywaith y flwyddyn ar y cynnydd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb hefyd yn cael ei drafod gan yr Uwch Dîm Rheoli ym mis Hydref ac Ebrill.

7. Cyhoeddi ac Adrodd

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-26 y Comisiynydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd, ochr yn ochr â'r Cynlluniau blaenorol. Bydd y Cynllun yn cael ei hyrwyddo drwy'r sianelau priodol a bydd fersiynau o'r Cynllun mewn fformatau eraill ar gael ar gais.

Er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, bydd y Comisiynydd yn parhau i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaed ers cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd yr holl adroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar y wefan a bydd copïau ar gael ar gais.

Atodiad 1: Data proffil y gweithlu

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd y Comisiynydd yn parhau i gasglu data ar broffil ei gweithlu mewn perthynas â'r meysydd a restrir isod.

Adroddir ar y data hwn yn flynyddol a gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol yma. Mae tueddiadau o'r data hwn wedi cael eu dadansoddi a'u defnyddio wrth lunio Amcanion Cydraddoldeb y Comisiynydd.

Data gofynnol am y gweithlu a gasglwyd gan y Comisiynydd:

Gwybodaeth cyfrif pennau

Rhaid i gorff cofrestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl a gyflogir gan yr awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn, yn ôl nodweddion gwarchodedig:

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Rhyw
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Priodas a phartneriaeth sifil

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y dynion a'r menywod a gyflogir, wedi'u rhannu yn ôl y categorïau canlynol:

- Swydd
- Cyflog a Graddfa
- Math o Gontract
- Patrwm Gwaith

Recriwtio

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y bobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r sefydliad dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am newid swydd o fewn yr awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus yn eu cais a sawl un fu'n aflwyddiannus

Dysgu a Datblygu

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a sawl un fu'n llwyddiannus gyda'u cais.

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr hyfforddiant.

Gweithdrefnau Cwyno

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno naill ai fel achwynydd neu fel unigolyn y gwnaed cwyn yn ei erbyn.

Gweithdrefnau Disgyblu

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau disgyblu.

Ymadawyr

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi'n flynyddol nifer y gweithwyr sydd wedi gadael cyflogaeth awdurdod.

Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Cyhoeddi data ar y gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau.

Cyfeirnodau

Poblogaeth 60+

ONS, (2022) Amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer y DU, Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

ONS, (2024) Prif amcanestyniad – poblogaeth Cymru mewn grwpiau oedran (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationprojections/datasets/tablea25principalprojectionwalespopulationinagegroups [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Ethnigrwydd

ONS, (2023) Grŵp ethnig yn ôl oedran a rhyw yng Nghymru a Lloegr (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/datasets/ethnicgroupbyageandsexinenglandandwales [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Cyfeiriadedd Rhywiol

ONS, (2023) Cyfeiriadedd rhywiol (9 categori) yn ôl oedran, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021 (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/sexuality/datasets/sexualorientation9categoriesbyageenglandandwalescensus2021 [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Salwch hirsefydlog

Llywodraeth Cymru - StatsCymru, (2022) Iechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion yn ôl oedran a rhyw, 2020-21 ymlaen. Ar gael yn: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Population-Health/Adult-general-health-and-illness/generalhealthillness-by-age-gender [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Statws Perthynas

ONS, (2024) Amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ôl statws priodasol a threfniadau byw, Cymru (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesbymaritalstatusandlivingarrangementswales [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Siaradwyr Cymraeg

Llywodraeth Cymru, ONS, (2023). Y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth (Cyfrifiad 2021) Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/y-gymraeg-yn-ol-nodweddion-y-boblogaeth-cyfrifiad-2021 [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Cartrefi Gofal

ONS, (2023) Pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn 2021 a newidiadau ers 2011 (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/ageing/articles/olderpeoplelivingincarehomesin2021andchangessince2011/2023-10-09 [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Disgwyliad Oes

ONS, (2019) Disgwyliad oes cyflwr iechyd adeg geni ac yn 65 oed yn ôl ardaloedd lleol yn y DU (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/healthstatelifeexpectancyatbirthandatage65bylocalareasuk [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

ONS, (2020) Disgwyliad oes cyflwr iechyd yn ôl degraddau amddifadedd, Cymru: 2016 i 2018 (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthinequalities/bulletins/healthstatelifeexpectanciesbynationaldeprivationdecileswales/2016to2018#life-expectancy-and-healthy-life-expectancy-by-the-welsh-index-of-multiple-deprivation [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]

Crefydd

ONS, (2023) Crefydd yn ôl oedran a rhyw yng Nghymru a Lloegr (Saesneg yn unig). Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/religion/datasets/religionbyageandsexinenglandandwales [Dyddiad Cyrchu: 20 Chwefror 2024]